

“ Mae data poblogaeth gwartheg a ryddhawyd yn ddiweddar gan BCMS yn rhoi syniad o dueddiadau cyfredol yn y farchnad cig eidion. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y sector cig eidion, a beth allai hyn ei olygu i'n cyflenwad domestig yn y dyfodol.

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



TROSOLWG POBLOGAETH GWARTHEG PRYDAIN

Ar 1 Hydref 2024, roedd cyfanswm poblogaeth y gwartheg a'r lloi ym Mhrydain Fawr (GB) yn **7.7 miliwn pen**, yn ôl data gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS). Mae hyn yn cynrychioli **gostyngiad o 2%** blwyddyn ar flwyddyn, sy'n cyfateb i 163,100 yn llai o anifeiliaid, a gostyngiad pellach o 3% o'i gymharu â Hydref 2022. Gostyngodd nifer y gwartheg cig eidion 1.8% i 5.0 miliwn pen, tra bod y fuches laeth wedi lleihau o 2.5% i 2.8 miliwn pen, gan barhau â thuedd am i lawr a welwyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Roedd poblogaeth y gwartheg dros 30 mis oed yn sefyll yn **2.8 miliwn pen**, gostyngiad o 2% ers y flwyddyn flaenorol a 3.5% yn is nag yn 2022. O fewn y categori hwn, gostyngodd benywod sy'n magu dros 30 mis oed - dangosydd o faint y fuches fridio - 2% i 2.7 miliwn pen. Sbardunwyd y gostyngiad hwn gan ostyngiad o 4% yn y fuches fridio cig eidion, tra bod y fuches fridio laeth wedi aros yn sefydlog ar 1.4 miliwn pen.

EDRYCH YMLAEN

Mae archwilio categorïau gwartheg a bracedi oedran yn rhoi cipolwg ar gyflenwad posibl y farchnad yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gostyngodd poblogaeth gwartheg o dan 30 mis ym Mhrydain ym mis Hydref 2024 i ychydig **o dan 5.0 miliwn pen**, gostyngiad o 2.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae data ar gyfer gwartheg cig eidion a gwrywod laeth rhwng 12 a 30 mis oed yn rhoi syniad o'r cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y **tymor byr**. Roedd 2.2% yn llai o anifeiliaid ar lawr gwlad o'i gymharu â 2023, sy'n awgrymu y bydd y cyflenwad yn y tymor byrrach yn dynnach o'i gymharu â lefelau hanesyddol (tra hefyd yn nodi y gellir defnyddio rhai o'r gwartheg hyn fel anifeiliaid magu cyfnewid).

Ar gyfer y **tymor hwy**, gostyngodd poblogaeth gwartheg eidion a gwrywod laeth 0-12 mis oed o 1.8% i bron i 1.9 miliwn pen. Mae'r gostyngiad hwn yn dangos bod cyflenwad gwartheg dethol is yn debygol o barhau ymhellach i'r dyfodol. O fewn y grŵp hwn, gostyngodd nifer y gwrywod laeth yn sylweddol, i lawr 12% o'r



flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei briodoli i ddefnydd cynyddol o semen laeth â rhywedd penodol, a allai gyfyngu ar nifer y teirw laeth. Er y gall mwy o ddefnydd o semen cig eidion ar wartheg laeth wrthbwysu'r duedd hon trwy gynhyrchu mwy o anifeiliaid cig eidion o'r fuches laeth, mae gostyngiad ehangach y buchesi laeth a sugno (wedi'i sbarduno gan gostau mewnbwn cynyddol a phroffidoldeb sy'n lleihau) yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol ar gyfer twf cynhyrchu cig eidion yn y dyfodol.

TUEDDIADAU CYNHYRCHU CIG EIDION Y DU

Mae data gan Defra yn awgrymu bod trwybwn gwartheg dethol am y cyfnod rhwng Ionawr a Hydref 2024 wedi codi 5% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023, gan gyrraedd 1.8 miliwn pen. Cyflawnodd cynhyrchiant cig eidion ym mis Hydref 2024 gyfanswm misol o 92,000 tonnall - **y cyfaint uchaf a gofnodwyd ers 2012**. Er gwaethaf y cyflenwad mawr hwn, mae prisiau pwysau marw wedi dangos tuedd am i fyny. Yng nghanol mis Medi, cyrhaeddodd pris cyfartalog pwysau marw y bustach yng Nghymru a Lloegr uchafbwynt newydd o £5/kilo, ac mae prisiau wedi cynnal y llwybr hwn am i fyny gyda phrisiau cyfredol tua 9% yn uwch flwyddyn ar flwyddyn.

Mae data'r farchnad yn awgrymu y bydd cyflenwadau gwartheg yn tynhau, gan godi cwestiynau am yr effaith bosib ar brisiau giât fferm. Er bod prisiau porth y fferm wedi codi, nid yw'r cynnydd hwn wedi effeithio'n sylweddol ar brisiau defnyddwyr eto. Yn ôl data diweddaraf Kantar, roedd pris manwerthu cig eidion ar gyfartaledd i fyny o 1.7% yn unig flwyddyn ar flwyddyn yn ystod y 12 wythnos ddiweddaraf hyd at 3 Tachwedd, 2024. Mae prisiau cig eidion cymharol sefydlog ym maes manwerthu wedi cefnogi'r galw gan ddefnyddwyr yn ystod yr argyfwng costau byw parhaus.

POBLOGAETH GWARTHEG YNG NGHYMURU:

Mae'r tueddiadau o fewn y boblogaeth wartheg yng Nghymru yn adlewyrchu'r rhai a welir ar draws Prydain i raddau helaeth. Ar 1 Hydref 2024, roedd gan Gymru 1.1 miliwn o wartheg, yn cynrychioli 14% o fuches Prydain Fawr ac yn nodi gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o 1.5%. Roedd y cyflenwad posibl o anifeiliaid dethol yn y tymor byr (fel y categorïddiad uchod) i lawr 1% ar y flwyddyn, tra bod y cyflenwad posibl yn y tymor hwy i lawr 2%. Fel gyda ffigurau Prydain Fawr, roedd llai o wrywod laeth yn sbarduno llawer o'r gostyngiad hwn.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 23 Tachwedd

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **529.1c/kg**. Roedd hyn:

- + 8.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 51.3c yn uwch na'r lefelau blwyddyn-gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 521.9c/kg (+5.3c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 512.6c/kg (+6.2c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 353.7c/kg (+5.3c ar yr wythnos).

Trwybwn - Hydref 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 286,200 pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 204,100 pen - i fyny 13% ar y flwyddyn.
 - bustych +12%, heffrod +15%, a theirw ifanc +9%
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 340.0kg (+0.8kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 72,300 pen - cynnydd o 9% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 23 Tachwedd

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **661.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 12.6c ar yr wythnos flaenorol,

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 38,150 pen. Roedd hyn:

- 9% ar yr wythnos flaenorol, a
- 30% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

Trwybwn - Hydref 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.2 miliwn pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 1.1 miliwn pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen cyfartalog = 19.8kg (+0.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 134,200 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 16 Tachwedd

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **208.1c/kg**. Roedd hyn:

- 1.8c ar yr wythnos flaenorol,
- 10.4c o'i gymharu â lefelau cynharach blwyddyn,
- 29.0c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22): 179.1p/kg.


Trwybwn - Hydref 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 986,000 pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 966,200 pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 90.3kg (+0.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,800 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Hydref '24

92,000 tunnell
+12% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU Hydref '24

25,000 tunnell
-1% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU Hydref '24

90,300 tunnell
+9% b-a-f

